# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH

*Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad*

### 103 Cyfarwyddyd i brif gyngor ddarparu cefnogaeth a chymorth

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i ddarparu i brif gyngor arall ("y cyngor a gefnogir") unrhyw gefnogaeth a chymorth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor a gefnogir yn bodloni'r gofynion perfformiad.

(2) Rhaid i'r gefnogaeth a'r cymorth sydd i'w darparu gael eu pennu yn y cyfarwyddyd.

(3) Ond cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r ddau gyngor.

(4) Mae'r gefnogaeth a'r cymorth y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i'w darparu yn cynnwys—

(a) ymrwymo i gontract neu gytundeb neu drefniant arall â'r cyngor a gefnogir (a chaiff y cyfarwyddyd bennu ei delerau a'i amodau);

(b) cydweithredu â'r cyngor a gefnogir, neu hwyluso neu gydgysylltu ei weithgareddau;

(c) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau ac adeiladau neu ystafelloedd i'r cyngor a gefnogir.